**PENDERFYNIADIAU AELOD CABINET UNIGOL**
**COFNOD PENDERFYNIADAU**

**DYDDIAD GWNEUD PENDERFYNIAD: Dydd Mercher, 15 Ionawr 2025**

**DAW'R PENDERFYNIAD I RYM AR: Dydd Gwener, 24 Ionawr 2025**
Gall penderfyniadau a wneir gan y cabinet llawn ac aelodau unigol o'r cabinet gael eu "Galw Mewn" gan y Pwyllgor Dethol perthnasol. Os caiff penderfyniad ei alw mewn, ni fydd yn dod i rym fel y nodir uchod a chaiff ei gyflwyno eto maes o law.

| Eitem Rhif | Teitl | Diben, Ymgynghoriad ac Awdur | Datganiad Diddordeb | Penderfyniad |
|---|---|---|---|---|
| **1** | GWEITHGOR CRONFA EGLWYSI CYMRU | Fel y nodir yn yr adroddiad | Dim | DATRYS:<br>Penderfynodd y Pwyllgor ddyfarnu'r grantiau canlynol yn unol â'r rhestr ceisiadau.<br>**RHESTR CEISIADAU A YSTYRIWYD 2023/24 – CYFARFOD 3**<br><br>**Eglwys y Santes Fair, Magwyr** a wnaeth gais am £1,500 i atal mwy o ddŵr rhag mynd i mewn i gôr yr Eglwys sy'n achosi cracio a hefyd osod pibelli newydd y mae difrod iddynt.<br>Argymhelliad: £1,500<br><br>**Eglwys Sant Bartholomew, Llanofer** a wnaeth gais am £5,000 i gynorthwyo gyda gwaith ailwampio i ardal y gegin, toiledau a gosod toiled newydd i'r anabl. Adnewyddu ardal ystafell gyfarfod ar gyfer defnydd y gymuned.<br>Argymhelliad: Dyfarnu £2,500 i wella'r cyfleusterau i'r anabl yn yr eglwys i'w defnyddio gan blwyfolion a defnydd ehangach gan y gymuned.<br><br>**Eglwys Gatholig y Santes Fair a Sant Mihangel, Llanarth** a wnaeth gais am £3,000 am waith atal drafftiau (cadwraeth ynni) i'r adeilad drwy osod drysau dwbl mewnol yn gwahanu prif gorff yr eglwys oddi wrth y brif fynedfa.<br>Argymhelliad: Dyfarnu £1,500 i gynorthwyo gydag addasiadau cadwraeth ynni i'r eglwys.<br><br>**Capel Bedyddwyr Llanddewi Rhydderch** a wnaeth gais am £5,000 i osod to newydd ar y capel i atal dŵr rhag mynd i mewn, gan fod arddangosfa o hanes lleol yn cael ei chynnal a fydd ar agor i'r cyhoedd.<br>Argymhelliad: Dyfarnu £2,500 i gynorthwyo i osod to newydd ar y capel i atal dŵr rhag mynd i mewn a chadw ffabrig mewnol y capel.<br><br>**Eglwys Ddiwygiedig Unedig Gilwern** a wnaeth gais am £2,500 ar gyfer ailbwyntio waliau'r eglwys gyda morter calch ac atgyweirio ffenestri yr eglwys.<br>Argymhelliad: Dyfarnu £1,500 i gynorthwyo gyda gwaith ar du allan yr eglwys i'w gwarchod rhag y gwynt a'r tywydd.<br><br>**Y Fenni Wyrddach** a wnaeth gais am £500 i gynorthwyo wrth gynnal Ffair Neuadd y Farchnad yn 2024 ar gyfer diben codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r argyfwng hinsawdd ac i helpu pobl ar sut y gallant gymryd rhan.<br>Argymhelliad: Gohiriwyd y cais i alluogi'r ymgeisydd i roi eglurhad pellach ar fanylion y cais am grant.<br>. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | **Canolfan Dyledion Cristnogion yn erbyn Tlodi Cas-gwent a'r Cylch** a wnaeth gais am £2,150 i gynorthwyo wrth gyflogi Rheolwr proffesiynol i'r Gronfa Dyledion ar sail 2 ddiwrnod yr wythnos.<br>Argymhelliad: Gwrthodwyd y cais ar y sail nad oedd yn cyflawni'r meini prawf ar gyfer dyfarnu grant.<br><br>**Eglwys Sant Nicholas, Grysmwnt** a ofynnodd am £9,500 ar gyfer cymorth i adfer organ brin Baril a Bys 1845 J W Walker yn yr eglwys.<br>Argymhelliad: Dyfarnu £2,400 i gynorthwyo wrth adfer mecanwaith Baril yr organ. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **2** | ARCHIF DIXTON | Fel y nodir yn yr adroddiad | Dim | DATRYS:<br>I drosglwyddo Archif Dixton o Amgueddfeydd Sir Fynwy i Swyddfa Cofnodion Henffordd. |
| **Additional Information:** | | | | |
| | | Fel y nodir yn yr adroddiad | Dim | |
| | | | | |